O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 62 (C. 5)

Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 7, Darpariaethau Darfodol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2026

Gwnaed *4 Mawrth 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 62 (C. 5)

The Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (Commencement No. 7, Transitory, Transitional and Savings Provisions) Order 2026

Made *4 March 2026*

£14.80

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 62 (C. 5)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 7, Darpariaethau Darfodol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("y Ddeddf") ac yn gwneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaethau penodol i rym.

Mae erthygl 1 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag enwi a dehongli'r Gorchymyn hwn.

Mae erthygl 2 yn dwyn darpariaethau o'r Ddeddf i rym yn llawn ar 1 Ebrill 2026. Mae erthygl 2(a) yn dwyn i rym adran 50 o'r Ddeddf, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. O dan adran 50(5) a (6), rhaid i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn"), Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ("y Prif Arolygydd") a'r corff a ddynodir o dan Atodlen 3 i'r Ddeddf i arfer swyddogaethau asesu ansawdd, i'r graddau y mae'n berthnasol i arfer eu swyddogaethau, roi sylw i fframwaith sicrhau ansawdd a gyhoeddir o dan adran 50.

Mae erthygl 4 yn dwyn i rym adrannau 51 i 53 o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2026 yn ddarostyngedig i addasiadau darfodol a ddisgrifir yn erthygl 4(4) a (5). Mae adran 51 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro ansawdd addysg drydyddol benodol ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno. Mae erthygl 2(vv)(ii) yn dwyn i rym baragraff 16(1)(d) o Atodlen 1 i'r Ddeddf sy'n darparu i adroddiad blynyddol y Comisiwn roi asesiad o ansawdd addysg drydyddol y mae rhaid i'r Comisiwn ei fonitro o dan adran 51. Mae adran 52 o'r Ddeddf yn galluogi'r Comisiwn i ddarparu, neu wneud trefniadau ar gyfer darparu, cyngor neu gynhorthwy arall mewn cysylltiad ag addysg drydyddol benodol neu gwrs penodol o addysg drydyddol at ddibenion gwella ansawdd yr addysg honno neu'r cwrs hwnnw neu atal ansawdd yr addysg honno neu'r cwrs hwnnw rhag dod yn annigonol. Mae adran 53 o'r Ddeddf yn galluogi'r Comisiwn i gynnal, neu drefnu

i berson arall gynnal, adolygiad o unrhyw faterion y mae'n ystyried eu bod yn berthnasol i ansawdd addysg drydyddol benodol, neu i gyrsiau penodol o addysg drydyddol.

Mae erthygl 7(1) yn dwyn i rym adran 57 o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2026, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol a ddisgrifir yn erthygl 7(2). Mae adran 57 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd arolygu addysg benodol a hyfforddiant penodol.

Mae erthygl 2(b) i (l) yn dwyn i rym adrannau 58 i 68 o'r Ddeddf. Mae'r adrannau hynny yn rhoi pŵer i'r Prif Arolygydd i arolygu addysg benodol a hyfforddiant penodol ac adrodd arnynt (adran 58) ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd ddarparu gwybodaeth benodol a chyngor penodol i'r Comisiwn ac i Weinidogion Cymru (adrannau 59 a 60). O dan adran 61, caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, roi swyddogaethau penodol eraill i'r Prif Arolygydd. Mae adran 62 yn darparu ar gyfer cyhoeddi cynlluniau gweithredu yn dilyn arolygiadau penodol a gynhelir gan y Prif Arolygydd ac mae adran 63 yn galluogi'r Prif Arolygydd i gynnal arolygiadau ardal. Mae adran 64 yn darparu, wrth gynnal arolygiad o dan Bennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf, fod gan y Prif Arolygydd hawliau penodol i fynd i fangre ac arolygu cofnodion. O dan adran 65, caiff y Comisiwn gyfarwyddo'r Prif Arolygydd i gynnal arolygon ac astudiaethau penodol ac mae adrannau 66 a 67 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud ag adroddiad blynyddol a chynllun blynyddol y Prif Arolygydd. Mae adran 68 yn darparu ar gyfer cyllido'r Prif Arolygydd gan y Comisiwn.

Mae erthygl 2(ww)(v) (i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 8(10)(b) ac (c) o Atodlen 4 i'r Ddeddf), (vi), (xxiii) i (xxv), (xxvii), (xxxi) i (xxxv), (xxxvii), (xxxix) (i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 20(3)(a) o Atodlen 4 i'r Ddeddf) a (xl) (i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 21(2) o Atodlen 4 i'r Ddeddf), yn dwyn i rym ddiwygiadau sy'n ganlyniadol ar adrannau 57 i 68 o'r Ddeddf yn dod i rym.

Mae erthyglau 13 i 15 yn darparu ar gyfer darpariaethau trosiannol mewn perthynas ag arolygiadau'r Prif Arolygydd sy'n cael eu cynnal yn union cyn 1 Ebrill 2026; adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd mewn cysylltiad â'r cyfnod sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2026; a chynllun blynyddol y Prif Arolygydd mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2027.

Mae erthygl 2(m) yn dwyn i rym adran 69 o'r Ddeddf. Mae adran 69 yn nodi'r seiliau y caiff Gweinidogion Cymru ymyrryd drostynt o dan adrannau 70 ac 71 o'r Ddeddf yn ymddygiad darparwr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n sefydliad o fewn y sector addysg bellach. Mae adran 70 o'r Ddeddf yn nodi pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn perthynas â darparwr o'r fath os yw un neu ragor o'r seiliau dros ymyrryd yn bodoli.

Mae erthygl 3(a) yn dwyn i rym adrannau 70 ac 71 o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2026 at ddibenion galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad, o dan adran 72 o'r Ddeddf, sy'n nodi sut y maent yn bwriadu arfer eu pwerau ymyrryd o dan adran 70. Mae erthygl 2(n) yn dwyn i rym adran 72 o'r Ddeddf. Mae erthygl 25(a) a (b) yn dwyn i rym adrannau 70 ac 71 o'r Ddeddf at bob diben sy'n weddill ar 1 Ebrill 2027. Mae erthygl 26 yn dwyn i rym baragraff 6(3)(a) o Atodlen 4 i'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2027, yn ddarostyngedig i arbedion. Mae paragraff 6(3)(a) o Atodlen 4 yn diddymu adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("Deddf 1992") sy'n nodi pwerau cyfredol Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn ymddygiad sefydliad yng Nghymru o fewn y sector addysg bellach. Mae erthygl 26 yn darparu i unrhyw orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 57(4) o Ddeddf 1992 cyn 1 Ebrill 2027 barhau i gael effaith.

Mae erthygl 2(o) yn dwyn i rym adran 80 o'r Ddeddf. Mae adran 80 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn o dan Ran 2 o'r Ddeddf a darparwyr addysg drydyddol penodol eraill. Mae erthygl 2(vv)(iii) yn dwyn i rym baragraff 16(1)(e) o Atodlen 1 i'r Ddeddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol y Comisiwn gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag adran 80.

Mae erthygl 2(p) yn dwyn i rym adran 89(3), (4) a (5) o'r Ddeddf, i'r graddau nad yw'r darpariaethau hynny eisoes mewn grym. Mae adran 89 yn galluogi'r Comisiwn i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau addysg uwch penodol a bennir mewn rheoliadau.

Mae erthygl 2(q) ac (r) yn dwyn i rym adrannau 90 ac 91 o'r Ddeddf. Mae adran 90 yn gwneud darpariaeth ynghylch y telerau a'r amodau y caiff y Comisiwn ddarparu cymorth ariannol arnynt o dan adran 88 neu 89 o'r Ddeddf. Mae adran 91 yn gwneud darpariaeth atodol mewn perthynas â chymorth ariannol a ddarperir o dan adran 88 neu 89.

Mae erthygl 2(s) yn dwyn i rym adran 92 o'r Ddeddf. Mae adran 92 yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu darparu ar gyfer cyrsiau addysg uwch perthnasol penodol a ddisgrifir yn adran 92(5).

Mae erthygl 2(t) yn dwyn i rym adran 93 o'r Ddeddf. Mae adran 93 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ar gyfer addysg bellach benodol a hyfforddiant penodol ar gyfer personau 16 i 19 oed.

Mae erthygl 2(u) i (z) yn dwyn i rym adrannau 95 i 100 o'r Ddeddf. Mae adran 95 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod cyfleusterau rhesymol yn cael eu darparu ar gyfer addysg bellach benodol a hyfforddiant penodol ar gyfer personau dros 19 oed. Mae adran 96 yn gosod gofynion ar y Comisiwn wrth gyflawni ei ddyletswyddau i sicrhau cyfleusterau ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae adran 97 yn galluogi'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru i sicrhau bod cymorth ariannol yn cael ei ddarparu ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant. Mae adrannau 98 a 99 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chymorth ariannol o dan adran 97. Mae adran 100 yn galluogi'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru i gynnal profion modd, neu drefnu i brofion o'r fath gael eu cynnal, y caniateir ystyried eu canlyniadau wrth arfer swyddogaethau o dan adran 97(1)(d) neu (e).

Mae erthygl 2(ww)(vii) yn dwyn i rym baragraff 14(2) o Atodlen 4 i'r Ddeddf sy'n diddymu adrannau 31 i 33 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("Deddf 2000"). Diddymir yr adrannau hyn o ganlyniad i ddarpariaethau Rhan 3 o'r Ddeddf yn dod i rym.

Mae erthygl 2(ww)(viii) i (xx) yn dwyn i rym baragraff 14(4), (6) i (9), (10)(a) a (b) ac (11) i (17) o Atodlen 4 i'r Ddeddf. Mae erthyglau 8 i 10 yn dwyn i rym, yn y drefn honno, baragraff 14(3), (5) a (10)(c) o Atodlen 4 i'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2026 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol. Mae'r darpariaethau hyn yn diwygio adrannau 33A i 33E, 33G a 33I i 33Q o Ddeddf 2000 i roi cyfrifoldeb am lunio cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr 16 i 18 oed i'r Comisiwn yn hytrach na Gweinidogion Cymru, ac yn gwneud diwygiadau cysylltiedig o ganlyniad i hyn.

Mae erthygl 2(ww)(xxi) yn dwyn i rym baragraff 14(18) o Atodlen 4 i'r Ddeddf sy'n diddymu adrannau 34 i 38 o Ddeddf 2000. Diddymir yr adrannau hyn o ganlyniad i ddarpariaethau Rhan 3 o'r Ddeddf yn dod i rym.

Mae erthygl 2(ww)(i) yn dwyn i rym baragraff 4 o Atodlen 4 i'r Ddeddf. Mae paragraff 4 o Atodlen 4 yn diwygio adran 26 o Ddeddf Cyflogaeth 1988 yn sgil hepgor adran 34 o Ddeddf 2000 gan baragraff 14(18) o Atodlen 4 i'r Ddeddf. Mae erthygl 2(ww)(iv), (xxvi), (xxx), (xxxvi), (xxxviii), (xl) (i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 21(3) o Atodlen 4 i'r Ddeddf), (xli), (xlii) a (xliii) hefyd yn dwyn i rym ddiwygiadau sy'n ganlyniadol ar ddiddymu darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf 2000.

Mae erthygl 2(ww)(xlv) yn dwyn i rym baragraff 39 o Atodlen 4 i'r Ddeddf. Mae paragraff 39(4) yn hepgor, ymhlith darpariaethau eraill, adran 50(2) a (3) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018"). Mae'r diwygiadau hyn yn ganlyniadol ar ddiddymu adrannau 31 a 32 o Ddeddf 2000.

Mae erthygl 2(ww)(xxii) yn dwyn i rym baragraff 14(20) o Atodlen 4 i'r Ddeddf. Mae paragraff 14(20) yn hepgor adran 41 o Ddeddf 2000. Mae adran 41 o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth gyflawni rhai o'u swyddogaethau yn Rhan 2 o Ddeddf 2000, roi sylw i anghenion personau ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r diwygiad hwn yn ganlyniadol ar ddiddymu adrannau 31, 32 a 34 o Ddeddf 2000. Mae paragraff 39(4) o Atodlen 4 i'r Ddeddf, a ddygir i rym gan erthygl 2(ww)(xlv), yn hepgor, ymhlith darpariaethau eraill, adran 50(4) o Ddeddf 2018. Mae hyn o ganlyniad i ddiddymu adran 41 o Ddeddf 2000.

Mae erthygl 3(b)(i) a (ii) yn dwyn i rym baragraffau 15(7) a 25(4) o Atodlen 4 i'r Ddeddf yn rhannol ar 1 Ebrill 2026. Mae'r diwygiadau a wneir gan y darpariaethau hyn yn ganlyniadol ar ddiddymu darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf 2000.

Mae erthygl 2(aa) yn dwyn i rym adran 101 o'r Ddeddf, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. Mae adran 101 yn galluogi'r Comisiwn i roi grant i awdurdod lleol yng Nghymru mewn perthynas â'r chweched dosbarth mewn ysgolion.

Mae erthygl 2(bb) yn dwyn i rym adran 102 o'r Ddeddf. Mae adran 102 yn darparu, wrth arfer swyddogaethau penodol o dan y Ddeddf, fod rhaid i'r Comisiwn roi sylw i (ymhlith pethau eraill) anghenion personau ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae erthygl 2(cc) yn dwyn i rym adran 103 o'r Ddeddf, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. Mae adran 103 yn galluogi'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru i sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu darparu ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol.

Mae erthygl 2(dd) yn dwyn i rym adran 108 o'r Ddeddf. Mae adran 108 yn gwneud darpariaeth ynghylch y telerau a'r amodau y caniateir eu gosod pan ddarperir adnoddau ariannol gan y Comisiwn o dan adran 89(3), 97(1)(a) neu (b) neu 104(1)(a) o'r Ddeddf i ddarparwr nad yw wedi ei gofrestru â'r Comisiwn.

Mae erthygl 2(ee) yn dwyn i rym adran 109 o'r Ddeddf. Mae adran 109 yn darparu i'r Comisiwn roi cydsyniad i daliadau gael eu gwneud i gyrff sy'n cydlafurio o dan ddarpariaethau penodol o'r Ddeddf a sut y caniateir i gydsyniad o'r fath gael ei dynnu'n ôl, ei amrywio neu ei atal dros dro.

Mae erthygl 2(ff) i (kk) ac (ll) yn dwyn i rym adrannau 111 i 116 a 125 o'r Ddeddf, yn y drefn honno. Mae adrannau 111 i 114 yn diffinio'r termau "prentisiaeth Gymreig gymeradwy"; "cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy"; "prentisiaeth Gymreig amgen" a "fframwaith prentisiaeth", yn y drefn honno. Mae adran 115 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy ac mae

adran 116 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori mewn perthynas â phennu gofynion o'r fath. Mae adran 125 yn darparu ar gyfer dehongli Rhan 4 o'r Ddeddf.

Mae erthygl 2(mm) yn dwyn i rym adran 127 o'r Ddeddf. Mae adran 127 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gymryd unrhyw gamau y mae'n ymddangos eu bod yn briodol er mwyn sicrhau bod gan ddarparwyr addysg drydyddol penodol weithdrefnau cwyno yn eu lle.

Mae erthygl 2(nn) yn dwyn i rym adran 128 o'r Ddeddf. Mae adran 128 yn gwneud diwygiadau i adrannau 11 a 12 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 sy'n ymwneud â'r cynllun cwynion myfyrwyr o dan y Ddeddf 2004 honno. Mae erthygl 2(ww)(xxviii) a (xxix) yn dwyn i rym baragraff 16(1) a (3) o Atodlen 4 i'r Ddeddf sy'n gwneud diwygiad sy'n ganlyniadol ar adran 128 o'r Ddeddf yn dod i rym.

Mae erthygl 2(oo) i (rr) yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol o adran 131 o'r Ddeddf, y mae rhai ohonynt eisoes mewn grym yn rhannol. Mae adran 131 yn galluogi'r Comisiwn i'w gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, i bersonau penodol a restrir yn adran 131(2) ddarparu i'r Comisiwn unrhyw wybodaeth y mae'r Comisiwn yn gofyn amdani at ddibenion arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiwn. Mae erthygl 6 yn dwyn i rym adran 131(2)(b)(ii) i (v) o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2026 yn ddarostyngedig i addasiad darfodol sy'n darparu i'r cyfeiriad at "darparwr cofrestredig" gael ei ddarllen fel pe bai'n gyfeiriad at "sefydliad rheoleiddiedig" tan 31 Gorffennaf 2026. Mae erthygl 23 hefyd yn gwneud addasiadau darfodol i adran 131(2)(b) fel y gellir ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n cael cyllid o dan adran 65 o Ddeddf 1992 ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau'r Comisiwn. Mae'r addasiad hwn yn gymwys hyd nes bod adran 65 o Ddeddf 1992 wedi ei diddymu.

Mae erthygl 2(ss) yn dwyn i rym adran 132(1)(f) o'r Ddeddf. Mae adran 132(1)(f) yn galluogi corff a ddynodir o dan Atodlen 3 i'r Ddeddf i roi gwybodaeth i'r Comisiwn at ddibenion arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiwn. Mae erthygl 16(d) yn dwyn i rym ddarpariaethau yn Atodlen 3 i'r Ddeddf (y mae rhai ohonynt eisoes mewn grym yn rhannol) ar 31 Gorffennaf 2026. Mae paragraffau 4 i 9 o Atodlen 3 yn darparu ar gyfer goruchwylio corff dynodedig gan y Comisiwn. Mae paragraff 10 o Atodlen 3 yn galluogi corff dynodedig i godi ffioedd ar unrhyw ddarparwr addysg drydyddol y mae'r corff yn arfer ei swyddogaethau asesu mewn perthynas ag ef.

Mae erthygl 2(tt) ac (uu) yn dwyn i rym adrannau 137 a 138 o'r Ddeddf, yn y drefn honno. Mae adran 137 yn diwygio adran 124A o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 sy'n ymwneud ag offerynnau llywodraethu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru. Mae adran 138 yn diwygio adrannau 125 a 232 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 sy'n ymwneud ag erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg uwch o'r fath.

Mae erthygl 2(vv)(i) a (iv) yn dwyn i rym baragraff 16(1)(c) ac 16(2) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, yn y drefn honno. Mae paragraff 16(1)(c) a (2) yn darparu i adroddiad blynyddol y Comisiwn gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â darparu addysg drydyddol yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae erthygl 2(ww)(iii) yn dwyn i rym baragraff 6(4) o Atodlen 4 i'r Ddeddf. Mae paragraff 6(4) yn diwygio adran 83(1B) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fel diwygiad canlyniadol, mae erthygl 3(b)(iii) yn dwyn i rym baragraff 38(2) o Atodlen 4 i'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2026

i’r graddau y mae’n hepgor paragraff 24 o Atodlen 11 i Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.

Mae erthygl 11(1) yn dwyn i rym baragraff 33(2)(a) o Atodlen 4 i’r Ddeddf ar 1 Ebrill 2026 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol. Mae erthygl 2(ww)(xliv) yn dwyn i rym baragraff 33(2)(c) o Atodlen 4 i’r Ddeddf, i’r graddau nad yw eisoes mewn grym ac mae erthygl 12(1) yn dwyn i rym baragraff 33(2)(d) ar 1 Ebrill 2026 i’r graddau nad yw eisoes mewn grym yn ddarostyngedig i ddarpariaeth drosiannol. Mae paragraff 33(2)(a), (c) a (d) yn diwygio adran 10 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae adran 10 o’r Ddeddf 2015 honno yn ymwneud â chanllawiau y caniateir eu dyroddi i sefydliadau addysg bellach ac uwch.

Mae erthygl 2(ww)(xlv) yn dwyn i rym baragraff 39 o Atodlen 4 i’r Ddeddf. Mae paragraff 39(2), (3) a (5) yn mewnosod cyfeiriadau at y Comisiwn a Gweinidogion Cymru yn Neddf 2018.

Mae erthygl 5(1) yn dwyn i rym adran 110 o’r Ddeddf ar 1 Ebrill 2026 yn ddarostyngedig i addasiadau darfodol. Mae adran 110 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau cymorth ariannol i’r Comisiwn. Mae erthygl 2(ww)(ii) yn dwyn i rym baragraff 6(3)(h) o Atodlen 4 i’r Ddeddf sy’n diddymu adran 81 o Ddeddf 1992. Mae diddymu adran 81 o Ddeddf 1992 yn ganlyniadol ar adran 110 o’r Ddeddf yn dod i rym. Mae erthygl 3(b)(iii) yn dwyn i rym baragraff 38(2) o Atodlen 4 i’r Ddeddf ar 1 Ebrill 2026, i’r graddau y mae’n hepgor paragraff 22 o Atodlen 11 i Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017. Mae hyn yn ganlyniadol ar ddiddymu adran 81 o Ddeddf 1992.

Mae erthygl 16 yn dwyn darpariaethau o’r Ddeddf i rym yn llawn ar 31 Gorffennaf 2026. Mae erthygl 16(a) yn dwyn i rym adran 49 o’r Ddeddf sy’n gymwys pan fo contract rhwng darparwr a pherson cymhwysol sy’n ymgymryd â chwrs cymhwysol yn darparu ar gyfer talu ffioedd gan y person sydd uwchlaw’r terfyn ffioedd cymwys.

Mae erthygl 18(1) yn dwyn i rym adran 54 o’r Ddeddf ar 31 Gorffennaf 2026 i’r graddau nad yw eisoes mewn grym ac yn ddarostyngedig i addasiad dros dro i adran 54(3). Mae adran 54 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiwn asesu, neu wneud trefniadau ar gyfer asesu, ansawdd addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig ac a ddarperir ar eu rhan. Mae adran 54 hefyd yn galluogi’r Comisiwn i asesu, neu i wneud trefniadau ar gyfer asesu, ansawdd addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan unrhyw ddarparwr addysg drydyddol. Rhaid i’r Comisiwn gyhoeddi adroddiad ar asesiadau o’r fath. Mae erthygl 16(b) yn darparu i adran 55 o’r Ddeddf ddod i rym. Mae adran 55 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu darparwr sy’n darparu’r addysg uwch a asesir, neu y mae’r addysg uwch wedi ei darparu ar ei ran, lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i adroddiad cyhoeddedig y Comisiwn.

Mae erthygl 16(c) yn dwyn i rym baragraffau 16(1)(i) a 17(2) o Atodlen 1 i’r Ddeddf sy’n ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol y Comisiwn gynnwys manylion am sut y mae corff asesu a ddynodir o dan Atodlen 3 i’r Ddeddf wedi arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae erthygl 16(e) yn dwyn i rym baragraff 3(2)(a) o Atodlen 4 i’r Ddeddf sy’n rhoi paragraff (aa) newydd yn lle’r un presennol yn adran 43(5) o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 fel bod adran 43 yn gymwys i ddarparwyr sydd wedi eu cofrestru o dan adran 25 o’r Ddeddf, heblaw’r rhai sydd hefyd yn dod o fewn adran 43(5)(a) neu (ba) o’r Ddeddf 1986 honno, neu ysgolion.

Mae erthygl 19 yn darparu i baragraff 1 o Atodlen 4 i'r Ddeddf ddod i rym ar 31 Gorffennaf 2026 yn ddarostyngedig i addasiadau darfodol. Mae paragraff 1 o Atodlen 4 i'r Ddeddf yn rhoi paragraff (a) newydd yn lle'r un presennol yn adran 8(4) o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973.

Mae erthygl 20 yn darparu i baragraff 6(5)(b) ac (c) o Atodlen 4 i'r Ddeddf ddod i rym ar 31 Gorffennaf 2026 yn ddarostyngedig i addasiadau darfodol. Mae paragraff 6(5)(b) o Atodlen 4 yn gwneud diwygiadau i adran 91(5) o Ddeddf 1992 sy'n darparu diffiniad o sefydliadau o fewn y sector addysg uwch ar gyfer dehongli'r Deddfau Addysg. Mae adran 91(5) o Ddeddf 1992 wedi ei diwygio fel ei bod yn cynnwys cyfeiriad at ddarparwyr penodol sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn. Mae paragraff 6(5)(c) o Atodlen 4 yn darparu ar gyfer hepgor adran 91(5A) o Ddeddf 1992. Mae erthygl 17 yn darparu i baragraff 31 o Atodlen 4 i'r Ddeddf ddod i rym ar 31 Gorffennaf 2026 i'r graddau y mae'n hepgor paragraff 4 o'r Atodlen i Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, sy'n ganlyniadol ar baragraff 6(5)(b) ac (c) o Atodlen 4 i'r Ddeddf yn dod i rym.

Mae erthygl 21 yn darparu i baragraffau 13(2)(a) a 19(2)(b) a (3) o Atodlen 4 i'r Ddeddf ddod i rym ar 31 Gorffennaf 2026 yn ddarostyngedig i addasiadau darfodol. Mae paragraff 13(2)(a) o Atodlen 4 yn rhoi paragraff 7 newydd yn lle'r un presennol yn Atodlen 2A i Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae paragraff 19(2)(b) a (3) yn gwneud diwygiadau, yn y drefn honno, i Atodlenni 2 a 3 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Mae erthygl 22 yn darparu i adrannau 133 a 134 o'r Ddeddf ddod i rym ar 1 Awst 2026. Mae adran 133 yn darparu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, i bersonau sy'n darparu gwasanaethau derbyn i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru roi gwybodaeth benodol at ddefnydd ymchwil gymhwysol. Mae adran 134 yn nodi sut y caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio gwybodaeth a geir o dan adran 133, ac â phwy y caniateir rhannu'r wybodaeth.

Mae erthygl 24 yn darparu i adran 33 o'r Ddeddf ddod i rym ar 1 Ionawr 2027 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. Mae adran 33(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod amodau cofrestru parhaus darparwyr sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn yn cynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflawni canlyniadau y gellir eu mesur i hyrwyddo'r nodau a nodir yn adran 33(2).

Mae erthygl 25(c) yn darparu i adran 87(5) o'r Ddeddf ddod i rym, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, ar 1 Ebrill 2027. Mae adran 87(5) yn rhestru pwerau cyllido'r Comisiwn sy'n ymwneud â datganiad y Comisiwn o'i bolisi cyllido sydd i'w gyhoeddi o dan adran 87.

NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn. Ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn, nid yw dyddiad cychwyn y ddarpariaeth sydd wedi ei marcio â * wedi ei gyrraedd.

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 1	15 Rhagfyr 2022	O.S. 2022/1318 (Cy. 267) (C. 106)
Adran 2 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)

Adran 2 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 3 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 3 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 4 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 4 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 5 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 5 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 6 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 6 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Awst 2024	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)
Adran 7 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 7 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 8 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 8 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 9 (yn rhannol)	15 Rhagfyr 2022	O.S. 2022/1318 (Cy. 267) (C. 106)
Adran 9 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 9 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 10 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 10 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 11 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 11 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 12 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 12 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 13	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 14	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 15	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 16	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 17	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 18	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 19	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 20	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)

Adran 21	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 22	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 23	1 Awst 2024	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)
Adran 24	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 25 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 25 (yn rhannol)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
*Adran 25 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	31 Gorffennaf 2026	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 26	1 Ionawr 2026	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 27 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 27 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 28 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 28 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 29	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 30 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 30 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 31 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 31 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 32 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 32 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 33 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 33 (yn rhannol)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 34	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 35 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 35 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 36 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 36 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 37	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 38	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 39	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 40	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)

Adran 41 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 41 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 42	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 43 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 43 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 44	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 45	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 46	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 47 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 47 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 48	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 50 (yn rhannol)	1 Awst 2024	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)
Adran 51 (yn rhannol)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 52 (yn rhannol)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 53 (yn rhannol)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 54 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 54 (yn rhannol)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 56	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 57 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 63 (yn rhannol)	1 Tachwedd 2023	O.S. 2023/1106 (Cy. 191) (C. 71)
Adran 73	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 74	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 75	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 76	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 77	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 78	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 79	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 81	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 82	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 83 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)

Adran 83 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 84 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 84 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 85 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 85 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 86	1 Awst 2024	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)
Adran 87 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 87 (yn rhannol)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 87 (yn rhannol)	1 Medi 2025	O.S. 2025/966 (Cy. 167) (C. 46)
Adran 88 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 89 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 94 (yn rhannol)	1 Ebrill 2024	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 97 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 101 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 101 (yn rhannol)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 103 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 104 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 105 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 126	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 129	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Adran 130	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 131 (yn rhannol)	1 Awst 2024	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)
Adran 132 (yn rhannol)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 135	1 Awst 2024	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)
Adran 136	1 Awst 2024	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)
Adran 139 (yn rhannol)	1 Awst 2024	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)
Adran 140	1 Awst 2024	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)
Adran 141	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 142	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Adran 147	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)

Atodlen 1, paragraffau 1 i 3; 4 (yn rhannol); 5 (yn rhannol); 7 (yn rhannol); 10 (yn rhannol); 11 (yn rhannol); 12	15 Rhagfyr 2022	O.S. 2022/1318 (Cy. 267) (C. 106)
Atodlen 1, paragraff 5 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); paragraff 7 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); paragraff 8 (yn rhannol); paragraff 9 (yn rhannol); paragraff 10 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); paragraff 11(1) (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); paragraff 11 (yn rhannol); paragraff 13; paragraff 14; paragraff 15 (yn rhannol); paragraffau 18 i 22	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Atodlen 1, paragraff 4 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); paragraff 6; paragraff 8 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); paragraff 9 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); paragraff 11 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); paragraff 15 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	1 Awst 2024	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)
Atodlen 1, paragraffau 16 (yn rhannol); 17 (yn rhannol)	1 Ebrill 2025	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)
Atodlen 1, paragraff 16 (yn rhannol)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Atodlen 2	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Atodlen 3, paragraffau 1; 2; 3; 6 (yn rhannol)	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Atodlen 3, paragraff 11	1 Medi 2025	O.S. 2025/966 (Cy. 167) (C. 46)
Atodlen 4, paragraffau 20(1), (2)(a); 28(a)	4 Medi 2023	O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52)
Atodlen 4, paragraff 2; paragraff 3 (yn rhannol); paragraff 5; paragraff 6 (yn rhannol); paragraff 7 (yn rhannol); paragraff 8 (yn rhannol); paragraff 12 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); paragraff 14 (yn rhannol); paragraff 15 (yn rhannol); paragraff 18 (yn rhannol); paragraff 19 (yn rhannol); paragraff 20 (yn rhannol); paragraff 22 (yn rhannol); paragraff 25 (yn rhannol); paragraff 27; paragraff 28 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym); paragraff 31 (yn rhannol);	1 Awst 2024	O.S. 2024/806 (Cy. 130) (C. 51)

paragraff 32; paragraff 33 (yn rhannol); paragraff 34; paragraff 36; paragraff 37; paragraff 38 (yn rhannol); paragraff 40; paragraff 41		
Atodlen 4, paragraffau 8 (yn rhannol); 11; 29	5 Ebrill 2025	O.S. 2025/432 (Cy. 83) (C. 17)
Atodlen 4, paragraff 13 (yn rhannol)	1 Medi 2025	O.S. 2025/966 (Cy. 167) (C. 46)

2026 Rhif 62 (C. 5)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 7, Darpariaethau Darfodol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2026

Gwnaed *4 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 148(2) a (3) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 7, Darpariaethau Darfodol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2026.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a sefydlwyd gan adran 1 o'r Ddeddf;

mae i "darparwr cofrestredig" ("*registered provider*") yr ystyr a roddir gan adran 144(1) o'r Ddeddf;

ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992 Act*") yw Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**2**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000(**3**);

ystyr "Deddf 2015" ("*the 2015 Act*") yw Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015(**4**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022;

ystyr "Prif Arolygydd" ("*Chief Inspector*") yw Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

mae i "sefydliad rheoleiddiedig" ("*regulated institution*") yr ystyr a roddir gan adran 7(5)(b) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**5**).

(**1**) 2022 dsc 1. Mae paragraff 6 o Atodlen 1A i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) yn darparu i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud drwy Offeryn Statudol Cymreig a'i osod gerbron Senedd Cymru.
(**2**) 1992 p. 13.
(**3**) 2000 p. 21.
(**4**) 2015 dccc 3.
(**5**) 2015 dccc 1.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2026

2. Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2026—

(a) adran 50 (fframweithiau sicrhau ansawdd) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(b) adran 58 (pŵer y Prif Arolygydd i arolygu ac adrodd);

(c) adran 59 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth a chyngor i'r Comisiwn);

(d) adran 60 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru);

(e) adran 61 (swyddogaethau ychwanegol y Prif Arolygydd);

(f) adran 62 (cynlluniau gweithredu yn dilyn arolygiadau gan y Prif Arolygydd);

(g) adran 63 (arolygiadau ardal) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(h) adran 64 (hawl mynediad a throseddau);

(i) adran 65 (arolygon ac astudiaethau);

(j) adran 66 (adroddiadau blynyddol);

(k) adran 67 (cynllun blynyddol y Prif Arolygydd);

(l) adran 68 (cyllido arolygiadau ac adroddiadau ar addysg bellach a hyfforddiant etc.);

(m) adran 69 (y seiliau dros ymyrryd);

(n) adran 72 (datganiad Gweinidogion Cymru ar bwerau ymyrryd);

(o) adran 80 (dyletswydd i fonitro cynaliadwyedd ariannol ac adrodd arno);

(p) adran 89(3), (4) a (5) (cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(q) adran 90 (cymorth ariannol o dan adrannau 88 a 89: telerau ac amodau);

(r) adran 91 (cymorth ariannol o dan adrannau 88 ac 89: atodol);

(s) adran 92 (cymorth ariannol gan Weinidogion Cymru ar gyfer cyrsiau addysg uwch penodol);

(t) adran 93 (addysg a hyfforddiant ar gyfer personau 16 i 19 oed);

(u) adran 95 (addysg a hyfforddiant ar gyfer personau dros 19 oed);

(v) adran 96 (gofynion ar y Comisiwn wrth sicrhau addysg bellach a hyfforddiant);

(w) adran 97 (cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(x) adran 98 (cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant: darpariaeth bellach);

(y) adran 99 (adnoddau ariannol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant: telerau ac amodau);

(z) adran 100 (profion modd);

(aa) adran 101 (y chweched dosbarth mewn ysgolion) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(bb) adran 102 (personau ag anghenion dysgu ychwanegol);

(cc) adran 103 (cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(dd) adran 108 (cymorth ariannol o dan adrannau 89, 97 a 104: darpariaeth bellach ynghylch telerau ac amodau);

(ee) adran 109 (cydsyniad i daliadau i gyrff sy'n cydlafurio);

(ff) adran 111 (ystyr “prentisiaeth Gymreig gymeradwy”);

(gg) adran 112 (ystyr “cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy”);

(hh) adran 113 (ystyr “prentisiaeth Gymreig amgen”);

(ii) adran 114 (ystyr “fframwaith prentisiaeth”);

(jj) adran 115 (pennu gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy);

(kk) adran 116 (ymgynghoriad gan Weinidogion Cymru ynghylch pennu);

(ll) adran 125 (dehongli Rhan 4);

(mm) adran 127 (gweithdrefnau cwyno);

(nn) adran 128 (sefydliadau cymhwysol ar gyfer y cynllun cwynion myfyrwyr);

(oo) adran 131(2)(b)(i), (vi) a (vii), (e), (f) ac (g) (personau y mae’n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth i’r Comisiwn);

(pp) adran 131(3)(a) i’r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(qq) adran 131(3)(b) ac (c);

(rr) adran 131(6) i’r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(ss) adran 132(1)(f) (pwerau i rannu gwybodaeth);

(tt) adran 137 (offerynnau llywodraethu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru);

(uu) adran 138 (erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru);

(vv) yn Atodlen 1 (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)—

(i) paragraff 16(1)(c);

(ii) paragraff 16(1)(d);

(iii) paragraff 16(1)(e);

(iv) paragraff 16(2);

(ww) yn Atodlen 4 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)—

(i) paragraff 4;

(ii) paragraff 6(3)(h);

(iii) paragraff 6(4);

(iv) paragraff 8(2);

(v) paragraff 8(10);

(vi) paragraff 9;

(vii) paragraff 14(2);

(viii) paragraff 14(4);

(ix) paragraff 14(6);

(x) paragraff 14(7);

(xi) paragraff 14(8);

(xii) paragraff 14(9);

(xiii) paragraff 14(10)(a) a (b);

(xiv) paragraff 14(11);

(xv) paragraff 14(12);

(xvi) paragraff 14(13);

(xvii) paragraff 14(14);

(xviii) paragraff 14(15);

(xix) paragraff 14(16);

(xx) paragraff 14(17);

(xxi) paragraff 14(18);

(xxii) paragraff 14(20);

(xxiii) paragraff 14(21);

(xxiv) paragraff 14(22);

(xxv) paragraff 14(23);

(xxvi) paragraff 14(25);

(xxvii) paragraff 15(6);

(xxviii) paragraff 16(1);

(xxix) paragraff 16(3);

(xxx) paragraff 17;

(xxxi) paragraff 18(2);

(xxxii) paragraff 18(3);

(xxxiii) paragraff 18(4);

(xxxiv) paragraff 18(5);

(xxxv) paragraff 18(7);

(xxxvi) paragraff 18(9)(b);

(xxxvii) paragraff 18(14);

(xxxviii) paragraff 18(15);

(xxxix) paragraff 20(3);

(xl) paragraff 21;

(xli) paragraff 23;

(xlii) paragraff 25(2);

(xliii) paragraff 30;

(xliv) paragraff 33(2)(c) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(xlv) paragraff 39.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2026 i'r graddau a bennir

3. Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2026 i'r graddau a bennir mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath—

(a) adrannau 70 (pwerau i ymyrryd) ac 71 (hysbysu gan y Comisiwn am y seiliau dros ymyrryd) at ddibenion cyhoeddi datganiad o dan adran 72 (datganiad Gweinidogion Cymru ar bwerau ymyrryd);

